

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Legislation (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—

The Bill will be considered in the following order—

Sections 1 - 5	Adrannau 1 - 5
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 6 - 39	Adrannau 6 - 39
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 40 - 43	Adrannau 40 - 43
Long title	Teitl hir

Dai Lloyd

18

Section 1, page 1, after line 16, insert—

'(3) In this Part, "accessibility of Welsh law" includes—

- the availability of up-to-date Welsh law;
- the navigability of Welsh law;
- the clarity and certainty of effect of enactments that form Welsh law;
- the utilisation of technology to make Welsh law freely available to the public;



- (e) the availability of commentary on Welsh law that is freely available to the public.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

‘(3) Yn y Rhan hon, mae “hygyrchedd cyfraith Cymru” yn cynnwys –

- (a) argaeledd cyfraith gyfredol Cymru;
- (b) pa mor hawdd ydyw i chwilio cyfraith Cymru;
- (c) eglurder a sicrwydd effaith deddfiadau sy’n ffurfio cyfraith Cymru;
- (d) defnyddio technoleg i sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd;
- (e) argaeledd sylwebaeth ar gyfraith Cymru sydd ar gael yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd.’.

Dai Lloyd

19

Section 1, page 1, after line 16, insert –

‘(3) In this Part, “accessibility of Welsh law” includes –

- (a) the availability of up-to-date Welsh law;
- (b) the navigability of Welsh law;
- (c) the clarity and certainty of effect of enactments that form Welsh law.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

‘(3) Yn y Rhan hon, mae “hygyrchedd cyfraith Cymru” yn cynnwys –

- (a) argaeledd cyfraith gyfredol Cymru;
- (b) pa mor hawdd ydyw i chwilio cyfraith Cymru;
- (c) eglurder a sicrwydd effaith deddfiadau sy’n ffurfio cyfraith Cymru.’.

Suzy Davies

12

Section 2, page 1, line 18, leave out ‘a programme setting out what they intend to do’ and insert ‘and implement a programme’.

Adran 2, tudalen 1, llinell 19, hepgorer ‘rhaglen sy’n nodi’r hyn y maent yn bwriadu ei wneud’ a mewnosoder ‘a gweithredu rhaglen’.

Jeremy Miles

1

Section 2, page 1, after line 24, insert –

‘() promote awareness and understanding of Welsh law;’.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘() hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru;’.



Jeremy Miles

2

Section 2, page 1, leave out line 27.

Adran 2, tudalen 1, hepgorer llinell 28.

Jeremy Miles

3

Section 2, page 2, line 7, leave out 'periodically' and insert 'annually'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 7, hepgorer 'o bryd i'w gilydd' a mewnosoder 'yn flynyddol'.

Suzy Davies

13

Section 2, page 2, line 8, after 'under', insert 'and implementation of'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 8, ar ôl 'rhaglen', mewnosoder 'ac ar weithredu'r rhaglen honno'.

Suzy Davies

14

Section 2, page 2, after line 8, insert –

'(8) In subsection (3)(a) "consolidating" Welsh law means bringing together Welsh law on a particular subject, with no or only minor amendments to the substance of the Welsh law being consolidated.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

'(8) Yn is-adran (3)(a) ystyr "cydgrynhoi" cyfraith Cymru yw dwyn ynghyd gyfraith Cymru ar bwnc penodol, gyda dim ond mân welliannau, os o gwbl, i sylwedd cyfraith Cymru sy'n cael ei chydgrynhoi.'

Suzy Davies

15

Section 2, page 2, after line 8, insert –

'(8) In subsection (3)(a) "codifying" Welsh law means organising and publishing Welsh law by subject matter in a form that improves the accessibility of Welsh law.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

'(8) Yn is-adran (3)(a) ystyr "codeiddio" cyfraith Cymru yw trefnu a chyhoeddi cyfraith Cymru yn ôl pwnc ar ffurf sy'n gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.'

Suzy Davies

16

Section 3, page 2, line 23, leave out 'an Act of the Parliament of the United Kingdom or'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 23, hepgorer 'Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu'.



Jeremy Miles

4

Section 4, page 3, after line 1, insert –

‘() section [*new section - equal status of texts of bilingual legislation*] (equal status of texts of bilingual legislation);’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘() adran [*adran newydd - statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog*] (statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog);’.

Jeremy Miles

5

Page 3, after line 5, insert a new section –

‘Bilingual Welsh legislation

[] Equal status of Welsh and English language texts

- (1) This section applies where an Assembly Act is enacted, or a Welsh subordinate instrument is made, in Welsh and English.
- (2) The Welsh language text and the English language text have equal status for all purposes.’.

Tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder adran newydd –

‘Deddfwriaeth ddwyieithog Cymru

[] Statws cyfartal y testunau Cymraeg a Saesneg

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad yn cael ei deddfu, neu pan fo is-offeryn Cymreig yn cael ei wneud, yn y Gymraeg a’r Saesneg.
- (2) Mae i’r testun Cymraeg a’r testun Saesneg statws cyfartal at bob diben.’.

Jeremy Miles

9

Schedule 1, page 20, Table, line 27, column 2, leave out –

‘out as far as the seaward boundary of the territorial sea,

and the question of which parts of the sea are adjacent to Wales is to be determined in accordance with provision made under section 158(3) or (4) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32)’.

and insert –

‘within the seaward limits of the territorial sea,

and the question of which parts of the sea are adjacent to Wales is to be determined in accordance with article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672)’.



Atodlen 1, tudalen 16, Tabl, llinell 16, colofn 2, hepgorer –

‘mor bell allan â ffin atfor y môr tiriogaethol,

ac mae'r cwestiwn ynghylch pa rannau o'r môr sy'n gyfagos i Gymru i'w benderfynu yn unol â darpariaeth a wneir o dan adran 158(3) neu (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)'

a mewnosoder –

‘o fewn terfynau atfor y môr tiriogaethol,

ac mae'r cwestiwn ynghylch pa rannau o'r môr sy'n gyfagos i Gymru i'w benderfynu yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)'.

Jeremy Miles **10**

Schedule 1, page 21, Table, line 12, column 2, leave out –

‘; and expressions referring to writing are to be interpreted accordingly’.

Atodlen 1, tudalen 21, Tabl, llinell 11, colofn 2, hepgorer –

‘; ac mae ymadroddion sy'n cyfeirio at ysgrifennu i'w dehongli yn unol â hynny’.

Jeremy Miles **6**

Section 36, page 12, after line 4, insert –

‘(d) any other enactment, so far as it is amended by legislation mentioned in paragraph (a), (b) or (c).’.

Adran 36, tudalen 12, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘(d) unrhyw ddeddfiad arall, i'r graddau y caiff ei ddiwygio gan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a), (b) neu (c).’.

Jeremy Miles **7**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 39, tudalen 13, llinell 14, hepgorer ‘a diddymiadau canlyniadol’ a mewnosoder ‘canlyniadol a diddymiadau’.

Suzy Davies **17**

Schedule 2, page 22, line 21, leave out ‘an Act of Parliament or’.

Atodlen 2, tudalen 22, llinell 21, hepgorer ‘an Act of Parliament or’.



Jeremy Miles

11

Schedule 2, page 23, line 34, leave out 'In Schedule 10 to the Government of Wales Act 2006' and insert –

- '(1) The Government of Wales Act 2006 is amended as follows.
- (2) In section 156 (English and Welsh texts of legislation) –
 - (a) after subsection (1) insert –
 - “(1A) Subsection (1) does not apply to any legislation to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2019 applies (but section [*new section - equal status of texts of bilingual legislation*] of that Act makes corresponding provision in relation to legislation to which that Part applies).”;
 - (b) omit subsections (2) to (5).
- (3) In Schedule 7B, in paragraph 7(2)(e), omit sub-paragraph (ii).
- (4) In Schedule 10'.

Atodlen 2, tudalen 23, llinell 34, hepgorer 'Yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006' a mewnosoder –

- '(1) Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 156 (testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth) –
 - (a) ar ôl is-adran (1) mewnosoder –
 - “(1A) Subsection (1) does not apply to any legislation to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2019 applies (but section [*adran newydd - statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog*] of that Act makes corresponding provision in relation to legislation to which that Part applies).”;
 - (b) hepgorer is-adrannau (2) i (5).
- (3) Yn Atodlen 7B, ym mharagraff 7(2)(e), hepgorer is-baragraff (ii).
- (4) Yn Atodlen 10'.

Jeremy Miles

8

Section 42, page 14, leave out lines 14 to 17.

Adran 42, tudalen 14, hepgorer llinellau 15 hyd at 18.

